

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee
Ymchwiliad i Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | Inquiry into
The Emotional and Mental Health of Children and Young People
EMH 61
Ymateb gan: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Response from: Healthcare Inspectorate Wales (HIW)



Tachwedd 2017

Ymchwiliad i Iechyd Meddwl ac Emosiynol Plant

Y gwaith a wnaed

2009

1. Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adroddiad ar adolygiad ar y cyd o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Archwiliodd yr adolygiad ystod eang o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ac emosiynol ar draws meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i ddarganfod a yw'r gwasanaethau yn diwallu anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ddigonol. Y casgliad cyffredinol oedd, er gwaethaf rhai gwelliannau dros y blynyddoedd diwethaf, bod y gwasanaethau yn dal i fethu nifer o blant a phobl ifanc, gan adlewyrchu nifer o rwystrau allweddol i welliant.
2. Gwnaeth yr adroddiad ar y cyd ym mis Tachwedd 2009 nodi nifer o bryderon diogelwch a gododd o arferion, yn bennaf yn y GIG. O ystyried bod yr arferion hyn yn peri risg i ddiogelwch plant a phobl ifanc, gofynnodd AGIC i fyrddau iechyd ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol ar unwaith wrth i'r cynllun gweithredu ehangach gael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad dilynol hwn yn canolbwyntio ar ymatebion Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd i faterion diogelwch a ganfuwyd yn ein hadroddiad yn 2009. Roeddent fel a ganlyn:
 - derbyn plant a phobl ifanc yn amhriodol i wardiau iechyd meddwl i oedolion;
 - staff meddygol ddim yn deall a/neu ddim yn gweithredu ar eu cyfrifoldebau diogelu;
 - gweithwyr iechyd proffesiynol ddim yn rhannu gwybodaeth am blant unigol gydag ymarferwyr eraill; a
 - chau achosion neu ryddhau cleifion os nad ydynt yn mynychu apwyntiadau.

2013

3. Yn 2013, cyhoeddodd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad dilynol gyda'r nod o gadarnhau a oedd Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd wedi mynd i'r afael yn llawn â'r materion a danlinellwyd yn 2009 fel rhai sy'n rhoi plant a phobl ifanc mewn perygl.
4. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad er bod peth cynnydd gan Lywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd wrth fynd i'r afael yn llawn â'r materion diogelwch a danlinellwyd yn adroddiad 2009, bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod mewn perygl yn sgil cael eu derbyn yn amhriodol i wardiau

iechyd meddwl i oedolion, problemau gyda rhannu gwybodaeth a gweithredu ar ddyletswyddau diogelu, ac arferion rhyddhau anniogel.

Ers 2013

5. Mae tair uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yng Nghymru. Mae dwy o'r unedau hyn yn unedau'r GIG: Tŷ Llidiard ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac Uned Glasoed Gogledd Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Y drydedd uned yw Ysbyty Gofal Iechyd Regis, a reolir gan y darparwr annibynnol Regis Healthcare Ltd.

Tŷ Llidiard

6. Cyhoeddodd AGIC ei adroddiad arolygu diweddaraf ar Dŷ Llidiard ym mis Mehefin 2017 <http://hiw.org.uk/find-service/service-index/tyllidiard?skip=1&lang=cy>
7. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o nodweddion cadarnhaol, gan gynnwys safon y gofal a'r cynlluniau triniaeth ac ymddygiad cadarnhaol wrth drin cleifion a hefyd rhwng aelodau o dimau amlddisgyblaethol a rheolwyr.
8. Gwnaeth hefyd nodi nifer o feysydd lle y gellid gwella'r gwasanaeth. Er enghraifft:
 - Cadw cofnodion: nodwyd bod tystiolaeth o gadw cofnodion gwael mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cofnodion cleifion a drefnwyd yn wael, cofnodion arsylwi cleifion a dogfennaeth Deddf Iechyd Meddwl anghyflawn, a chofnodion rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau'n wael.
 - Roedd prinder cadernid o ran rhai gweithdrefnau diogelwch megis rhoi a rheoli meddyginiaethau, mynediad amserol i reolwr ar ddyletswydd, a mynediad at offer brys.
 - Roedd angen i staff gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar faterion megis amddiffyn plant.
 - Cwblhau hyfforddiant penodol ychwanegol i helpu i gefnogi a gofalu am gleifion, gan gynnwys hyfforddiant Maudsley ar gyfer anhwylderau bwyta, cymorth ar gyfer pryddau bwyd, bwydo trwy diwb trwyn i'r stumog, lleihau achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio, a hyfforddiant caethiwed i'r rhyngryd.
9. Mae'n bosib y bydd y materion sy'n tynnu sylw at bwysau ehangach o fewn y system o ddiddordeb arbennig i'r pwyllgor. Mae ein hadroddiad yn nodi:

Ar adeg ein harolygiad, roedd Tŷ Llidiard wedi'i gomisiynu fel ysbyty 15

gwely. Roedd gan yr ysbyty gyfanswm o 19 ystafell wely, 14 ystafell wely ar Ward Enfys a phum ystafell wely ar Ward Seren. Yn ystod yr arolygiad, roedd 18 o gleifion yn derbyn gofal yn yr ysbyty.

Fe'n hysbyswyd, yn sgil y lefelau galw cyfredol ar y gwasanaeth i gleifion mewnol, bod Tŷ Llidiard yn darparu gofal yn rheolaidd i fwy o gleifion na'r gwasanaethau 15 gwely y cafodd ei gomisiynu a'i staffio i'w darparu. Felly, roedd angen staff ychwanegol o asiantaeth neu drwy'r system cronfa staff.

Fe'n hysbyswyd hefyd, ar adegau yn ystod 2016, y cafodd cleifion eu gosod 'y tu allan i'r ardal' yn sgil prinder gwelyau i gleifion yn Nhŷ Llidiard.

10. Gwnaethom argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn ne Cymru er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti.
11. Gwnaethom nodi'r effaith roedd y pwysau hyn yn ei chael ar staff.

Roedd hi'n amlwg fod y gwasanaeth o dan bwysau sylweddol i ddarparu gofal ar gyfer mwy o gleifion na'r nifer y cafodd ei gomisiynu ar eu cyfer. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r staff i ddarparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion.

12. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at yr effaith y cafodd y pwysau a'r swyddi gwag diweddar ar allu staff i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol a diweddarau eu hyfforddiant.

Uned Glasoed Gogledd Cymru, Ysbyty Abergele

13. Ar hyn o bryd, mae AGIC yn disgwyl ymweld â'r uned hon rywbryd yn ystod 2018.

Regis Healthcare

14. Cyhoeddodd AGIC ei adroddiad arolygu diweddaraf ar Ysbyty Gofal Iechyd Regis ym mis Chwefror 2017 <http://http://hiw.org.uk/find-service/service-index/regishealthcare89?skip=1&lang=cy> .
15. Ar y cyfan, roedd hwn yn arolygiad cadarnhaol yn gyffredinol, a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle y gwnaed cynnydd ers ein harolygiad diwethaf yn 2015.

Safbwyntiau ehangach

Timau Troseddau Ieuencid

16. Mae AGIC hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru. Caiff yr adolygiadau hyn eu harwain gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac maent hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o AGGCC ac Estyn. Yr adroddiad diweddaraf i'w gyhoeddi, ym mis Gorffennaf 2017, oedd arolygiad llawn ar y cyd o waith troseddau ieuencid yng Nghwm Taf https://www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2017/07/Cwm-Taf-FJI_cymraeg.pdf . Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad canlynol:

"Roedd rhywfaint o waith partneriaeth da, ond roedd darpariaeth y gwasanaethau gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn wael."

17. Ceir manylion pellach yng nghorff yr adroddiad sy'n tynnu sylw at ychydig o symudiadau cadarnhaol er gwaethaf y problemau parhaus:

"1.7 Roedd hefyd dystiolaeth fod y bwrdd iechyd ... a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn cydweithredu'n dda, megis y gwasanaeth datblygu newydd¹. Cafodd y fenter hon effaith bositif o ran gostwng amseroedd aros i blant a phobl ifanc wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd."

"2.17 Roedd y diffyg mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn broblem sylweddol er gwaethaf ymdrechion cadarn staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid. Roedd trosglwyddiad plant a phobl ifanc o wasanaethau ieuencid i'r gwasanaethau oedolion yn llawn problemau a gwelsom gyfranogiad cyfyngedig gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Soniodd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid fod y gwasanaeth yn well i blant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid oedd â diagnosis deuol."

Cudd-wybodaeth

18. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i'n helpu i benderfynu ble i ganolbwyntio ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys pryderon a fynegwyd gan staff, cleifion neu berthnasau. Nid yw'r nifer o bryderon o ran unedau arbenigol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn

¹ Cyhoeddwyd y fenter hon yn 2015 a chafodd ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i leihau amseroedd aros mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol.

fawr a dim ond deg pryder rydym wedi'u dderbyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf sy'n cwmpasu'r GIG a'r sector annibynnol.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisiau a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion.

Ein cyfrifoldebau

Mae ein gwaith yn cynnwys gweithgareddau mewn tri maes allweddol:

- rheoleiddio gofal iechyd annibynnol
- arolygu'r GIG
- iechyd meddwl

Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol

Cofrestru, arolygu a chymryd camau gorfodi yw'r dulliau mae AGIC yn eu defnyddio i reoleiddio'r sector iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2011, a deddfwriaeth arall (gweler Atodiad B).

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu amrywiaeth eang o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, sy'n amrywio o'r rhai sy'n defnyddio laserau i ysbytai preifat llawn. Mae ein gweithgareddau craidd yn cael eu rhestru isod.

- Cofrestru ac arolygu clinigau, ysbytai ac asiantaethau meddygol annibynnol.
- Cofrestru sefydliadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu annibynnol.

- Cofrestru ac arolygu lleoliadau sy'n defnyddio laser dosbarth 3B neu 4 neu beiriannau golau pwls dwys.
- Cymryd camau gorfodi pan nodir diffygion rheoleiddiol mewn lleoliadau cofrestredig.
- Nodi a delio gyda darparwyr sydd heb eu cofrestru o bosibl.

Arolygu'r GIG

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau a ddarperir gan y GIG ledled Cymru i brofi a yw'r gofal a ddarperir yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal. Mae nifer o arolygiadau AGIC yn rhai dirybudd, er nad yw hynny'n ymarferol bosibl bob amser. Rydym wedi cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r rhesymeg ar gyfer p'un ai a yw ein harolygiadau yn rhai dirybudd neu gyda rhybudd. Rydym hefyd yn ymgymryd â chyfran o'n hymweliadau y tu allan i oriau swyddfa.

Mae'r arolygiadau yn profi gofal yn erbyn tri maes penodol:

- ansawdd profiad y claf
- cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth

Iechyd meddwl

Canolbwynt y gwaith hwn yw sicrhau bod rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn, yn derbyn gofal, ac yn cael eu trin yn briodol mewn amgylcheddau sy'n hwyluso eu gwellhad. Mae AGIC yn ymweld ag ysbytai yn y GIG a'r sector annibynnol fel rhan o'n rhaglen waith. Rydym hefyd yn ymweld â gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned i adolygu Gorchmynion Triniaeth Gymunedol.

Mae ein gweithgareddau craidd yn cael eu rhestru isod.

- Arolygu sefydliadau iechyd meddwl ac anabledau dysgu y GIG ac annibynnol gyda gweithgarwch dilynol priodol.
- Darparu'r Gwasanaeth Adolygu Iechyd Meddwl a phrosesu ceisiadau am Feddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD).
- Monitro gweithrediad y Mesur Iechyd Meddwl.
- Monitro gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.